Cyngor Abertawe
Swansea Council

**Cyfarwyddiaeth Addysg**
Canolfan Ddinesig, Oystermouth Road,
Abertawe SA1 3SN
www.abertawe.gov.uk

At: Holl rieni/ofalwyr disgyblion
Ysgol Pen-y-Bryn

*Gofynnwch am: Michelle Thomas*
*Llinell Uniongyrchol: (01792) 636686*
*E-bost: michelle.thomas@swansea.gov.uk*
*Ein Cyf:FIT/MT/LettersCGP*
*Eich Cyf:*
*Dyddiad: 09/10/2023*

Annwyl Riant/Ofalwr

**Cynnig i ad-drefnu ysgolion**

Rydym yn ymgynghori ar gynnig i uno Ysgol Crug Glas ac Ysgol Pen-y-Bryn ar y safleoedd ysgol presennol o 1 Medi 2025 ac adleoli i ysgol bwrpasol newydd ar 1 Ebrill 2028.

Gellir dod o hyd i'r papur ymgynghori a dogfennau cysylltiedig eraill drwy'r ddolen ganlynol:

www.abertawe.gov.uk/trefniadaethYsgolionCynlluniauYsgolArbennig

Bydd y ddolen hon yn cael ei rhannu â'r holl staff, llywodraethwyr a rhieni.

Fe'ch gwahoddir i gyfarfod ymgynghori ar y cynigion a gynhelir yn Ysgol Pen-y-Bryn ar 7 Tachwedd 2023 am 1.30pm am oddeutu awr. Rydym yn eich annog i ddod i'r cyfarfod gan fod hwn yn gyfle i chi ofyn unrhyw gwestiynau a mynegi unrhyw farn sydd gennych.

Os na allwch ddod i'r cyfarfod a drefnir ar gyfer 8 Tachwedd, mae gennym ddyddiadau amgen isod:

- cyfarfod ymgynghori ar-lein ar 13 Tachwedd am 11am a fydd yn para oddeutu awr. Bwriedir i'r sesiwn rithwir hon fod ar gyfer rhanddeiliaid o Ysgol Crug Glas ac Ysgol Pen-y-Bryn. Os hoffech gofrestru'ch diddordeb ar gyfer y sesiwn hon a derbyn y ddolen, e-bostiwch trefniadaethysgolion@abertawe.gov.uk
- cynhelir cyfarfod ychwanegol ar 15 Tachwedd rhwng 1pm a 2.30pm ym mhencadlys Sgowtiaid a Geidiaid Abertawe, Bryn Road, Brynmill, Abertawe SA2 0AU. Bwriedir i'r sesiwn hon fod ar gyfer rhanddeiliaid o Ysgol Crug Glas ac Ysgol Pen-y-Bryn.

Os oes angen cyfieithydd ar y pryd neu arwyddwr arnoch ar gyfer cyfarfod ymgynghori, os oes angen yr wybodaeth hon arnoch mewn fformat sy'n fwy hygyrch, neu os nad ydych yn gallu cael mynediad at y wefan i weld y ddogfen ymgynghori, cysylltwch â Michelle Thomas drwy ffonio (01792) 636686 neu gallwch e-bostio trefniadaethysgolion@abertawe.gov.uk i drefnu i drefniadau addas gael eu gwneud ar eich cyfer.

Yn gywir

Helen Morgan-Rees
Cyfarwyddwr Addysg